# Beth yw'r Stori

## Ffocws y Pwnc

Hanes lleol, ymchwiliad hanesyddol, llythrennedd a thrin data

## Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn galluogi i blant archwilio safle claddu fel cyswllt â'r gorffennol. Bydd y plant yn ymchwilio i'r cerrig beddau, y cofadeiladau a'r cofgolofnau. Byddant yn datgelu'r straeon am y bobl sydd wedi'u claddu yno ac yn dod i ddeall mwy am bwy fu'n byw o'u blaen yn eu cymuned, a sut roeddent yn byw. Mae'r cerrig beddau'n coffau bywydau a bydd y disgyblion yn eu defnyddio fel prif ffynhonnell o dystiolaeth hanesyddol a hefyd fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer casglu data.

Dyma'r gweithgareddau: Ditectif Data, Ar Gof a Chadw, Oes Dda, Cewri Lleol.

### CSBC, CA1 a CA2

**Sgiliau Allweddol**

Ymchwilio

Cydymdeimlo

Canfod

Arsylwi

Llunio Casgliadau

**Geiriau Allweddol**

Tystiolaeth

### Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Hanes, Llythrennedd, Mathemateg a Chyfrifiadura.

**CSBC**

Deall y Byd

Pobl a chymunedau

Datblygiad Mathemategol



**Dyfarniad John Muir**

***Darganfod***

***Archwilio***

***Gwarchod***

***Rhannu***





Rhowch gynnig ar y gweithgareddau canlynol os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynnau canlynol:

***Enfys*** – Edrych a Dysgu

***Beavers*** - Gweithgaredd Archwilio

***Cybiau*** - Gweithgaredd Gwybodaeth Leol

***Guides*** - Diwylliant

***Sgowtiaid*** - Gweithgaredd Treftadaeth, Gweithgaredd Fy Ffydd I

# Ar Gof a Chadw

Mae'r gweithgaredd a awgrymir yn annog plant i edrych ar y cerrig beddau a'r cofgolofnau eraill fel ffenestr ar y gorffennol. Daw'r plant yn 'Dditectifs Hanes' gan ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth i gael rhagor o wybodaeth am y bobl a oedd yn byw yn eu cymuned.

***Canlyniadau Dysgu***

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Cydnabod bod safleoedd claddu'n darparu cliwiau i ni sy'n ein helpu i ddarganfod gwybodaeth am y gorffennol a'r bobl a oedd yn byw yno
- Dechrau llunio casgliadau gan ddefnyddio cerrig beddau fel ffynhonnell o dystiolaeth

### Cwestiynau Allweddol

***Beth mae cerrig beddau yn ei ddweud wrthym?***

### Adnoddau

Chwyddwydr, deunyddiau ysgrifennu e.e. clipfwrdd, pensiliau

*Fy Nghofnod I o Dystiolaeth*

### Cyflwyniad

Mae Ditectifs Hanes yn archwilio ac yn casglu tystiolaeth. Maent yn amyneddgar, yn sylwgar ac yn awyddus i wneud darganfyddiadau hanesyddol. Mae'r plant yn mabwysiadu rôl y Ditectif Hanes. Hefyd, gallant roi enw newydd iddyn nhw eu hunain: Arolygydd ?? Ditectif ?? Prif Ymchwilydd ??

### Syniad ar gyfer Gweithgaredd

Edrychwch ar 3 carreg fedd a chofnodwch yr holl wybodaeth arnynt ar y daflen ***fy nghofnod i o dystiolaeth.***

***Pwynt trafod*** - Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthych? Oes unrhyw gliwiau i swydd y person neu'r math o fywyd a gafodd? Oedd ganddo deulu?

### Sesiwn i Bawb

Mae'r plant yn rhannu beth maent wedi'i ddarganfod gyda'r grŵp. Pa garreg fedd neu garreg goffa arall oedd fwyaf diddorol yn eu barn hwy? Pam? A ydynt wedi canfod dirgelwch? Oes ganddynt unrhyw gwestiynau heb eu hateb am y bobl sydd wedi'u claddu yno? Cofnodwch y cwestiynau ar y daflen ***fy nghofnod i o dystiolaeth.***

### Yn Ôl yn yr Ysgol

***Ysgrifennu Cyffrous***

- Ysgrifennwch fywgraffiad i un o'r bobl y gwnaed ymchwiliad iddynt ar y safle claddu. Ymchwiliwch i amodau byw y person hwnnw pan oedd yn fyw a chofiwch eu cynnwys yn y bywgraffiad.
- Ymchwiliwch i'r atebion i'r cwestiynau sydd wedi'u cyflwyno a'u cofnodi yn ystod yr ymweliad â'r safle claddu.
- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth ar y cerrig beddau, gwnewch goeden deulu.



# Fy Nghofnod i o Dystiolaeth



Casglwyd gan ..............................................

| Enw ar y Garreg Fedd | Dyddiad Geni | Dyddiad Marw | Oedran | Perthynas yn y Teulu (taid, mam, mab) | Ysgrifen a Symbol | Aelodau'r Teulu | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

**Beth fyddwn i'n hoffi ei ddarganfod?**



